2 Medi 2010

Y Comisiwn Etholiadol

Crynodeb

Adroddiad ar ein barn ni ar y cwestiwn refferendwm arfaethedig

Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Rydym wedi asesu eglurder y cwestiwn arfaethedig ar gyfer refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Rydym wedi gwneud ymchwil er mwyn darganfod os oedd y cwestiwn yn un a oedd yn gallu cael ei ddeall gan bleidleiswyr, ac rydym ni wedi defnyddio ein darganfyddiadau er mwyn cynnig gwelliannau i'r cwestiwn.

Cefndir

Rydym eisiau sicrhau fod y cwestiwn yn un sy'n gallu cael ei ddeall gan bleidleiswyr, fel eu bod nhw'n gwybod am beth maen nhw'n pleidleisio. Ar y 23 o Fehefin 2010 gofynnodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ni ystyried eglurder cwestiwn y refferendwm arfaethedig (sydd yn cynnwys cyflwyniad), sydd ar dudalen gefn y crynodeb yma.

Er mwyn asesu'r cwestiwn arfaethedig, rydym wedi casglu gwybodaeth ar ba mor ddealladwy yw'r cwestiwn drwy gynnal gwaith ymchwil gyda phleidleiswyr, cael cyngor gan arbenigwyr ar hygyrchedd ac iaith blaen a gofyn am farnau ar eiriad y cwestiwn gan ymgyrchwyr posib a phobl eraill sydd â diddordeb, yn cynnwys pleidiau gwleidyddol. Gofynnom am 10 wythnos i gwblhau'r gwaith yma, ac rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi'r cyfnod llawn o amser i ni i gyflawni hyn.

Sialens geiriad y cwestiwn

Mae ein hymchwil o bleidleiswyr wedi canfod materion gyda'r cwestiwn drafft a fyddai wedi bod yn anodd eu rhagweld heb ei brofi'n drylwyr. Un o'r brif sialensau i'r rheini a oedd wedi drafftio'r cwestiwn oedd cymhlethdod; mater o broses gyfansoddiadol yw pwnc y refferendwm, sydd ddim yn gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl. Nid oes llawer o'r cyhoedd yn ymwybodol o'r

refferendwm, beth yw pwnc y refferendwm, neu hyd yn oed beth yw refferendwm. Cyfrannodd y diffyg ymwybodaeth hyn yn fawr at y problemau yr oedd y rhai hynny a gymrodd ran yn ein hymchwil yn wynebu wrth ateb y cwestiwn. Ar ôl darllen y cwestiwn, dywedodd y rhan fwyaf eu bod nhw wedi pleidleisio yn unol â'u bwriadon, ond roedd gan lawer ganfyddiad anghywir o hyd o bwnc y refferendwm ac o'r canlyniadau posib. Dywedodd nifer fechan o bobl, pe byddent wedi deall gwir ystyr y cwestiwn a chwmpas y pleidleisiau roeddynt yn pleidleisio drostynt, y byddent wedi pleidleisio'n wahanol.

Crynodeb o'n darganfyddiadau

A yw'n rhwydd ei ddeall?

Doedd pobl ddim yn gallu deall y cwestiwn yn rhwydd. Oherwydd nad oedd llawer o bobl yn ymwybodol o'r cefndir, roedd pobl yn dibynnu ar y rhagarweiniad i egluro'r refferendwm iddyn nhw. Yn ôl yr ymchwil, cawsant anawsterau oherwydd:

- Nid yw'r cwestiwn yn egluro'n glir yr hyn sy'n digwydd nawr, beth allai ddigwydd yn y dyfodol, a'r gwahaniaethau rhyngddynt.
- Nid yw'r iaith yn glir a'n syml. Roedd pobl yn cael trafferth i ddeall rhai geiriau ac ymadroddion, yn y Saesneg a'r Gymraeg.
- Mae'r term 'meysydd sydd wedi'u datganoli' yn peri problem. Doedd pobl ddim yn ei ddeall a'n cael trafferth i'w ddeall o gwbl, neu'n ei gamddeall i olygu ardaloedd (daearyddol) 'difreintiedig' neu 'sy'n datblygu' yng Nghymru. Yna, roeddynt yn meddwl mai pwrpas y refferendwm oedd rhoi mwy o bŵer i'r Cynulliad yn yr ardaloedd hyn.
- Nid oedd terminoleg sy'n swnio'n swyddogol fel Senedd y Deyrnas Unedig (Senedd)' yn gyfarwydd neu'n rhwydd i'w ddeall.
- Yn y Gymraeg, doedd 'bob yn damaid' ('bit by bit') ddim yn derm yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd ag ef.
- Roedd gan rai pobl gamsyniadau ynghylch pwnc y refferendwm (fel rhoi pwerau codi treth i'r Cynulliad), a ni newidiodd hyn hyd yn oed ar ôl iddynt ddarllen y cwestiwn.
- Dechreuodd pobl oedd eisoes â gwybodaeth o bwnc y refferendwm hyd yn oed, i ddrysu ar ôl darllen y cwestiwn.

A yw'n cyfleu'r pwynt?

- Roedd pleidleiswyr yn hoffi strwythur y cwestiwn. Mae'n cynnwys teitl; rhagarweiniad sy'n egluro'r sefyllfa gyfredol a'r hyn sy'n digwydd os yw pobl yn pleidleisio 'ydw' neu 'nac ydw'; a cwestiwn – roedd yn well ganddynt i'r cwestiwn fod mor fyr â phosib.
- Mae'r cyflwyniad yn cynnwys nifer o eiriau, gyda rhywfaint o frawddegau hir a chymhleth sy'n anodd eu darllen a'u deall.
- Roedd pleidleiswyr yn credu bod gwybodaeth, geiriau ac ymadroddion penodol yn cael eu hailadrodd yn ddiangen.

A yw'n eglur?

Yn ein barn ni, nid yw'r cwestiwn yn amwys drwy fwriad. Fodd bynnag, gan nad yw'r cwestiwn wedi'i ysgrifennu'n glir, nid oedd pobl yn gallu deall beth oedd gofyn iddynt bleidleisio drostynt neu'r dewisiadau oedd ganddynt. Y rheswm am hyn yw iaith a strwythur y cwestiwn. Dangosodd yr ymchwil:

- Fod rhai geiriau'n amwys. Er enghraifft, gallai'r frawddeg 'Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau' olygu naill ai "Mae'r Cynulliad yn gallu' ennill rhagor o bwerau ar hyn o bryd' neu 'gallai yn y dyfodol'. Yn y cwestiwn Cymraeg, 'Caiff' ('can' neu 'may'), yw'r iaith a ddefnyddir, sy'n amwys hefyd.
- Y ceir tri disgrifiad gwahanol o'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd, yn y paragraff cyntaf ac yn yr ail baragraff, ac yn y cwestiwn ei hun. Mae hyn yn cael ei ystyried yn gymhleth.
- Fod anghysondeb o ran geiriau wedi achosi dryswch hefyd. Roedd y brawddegau "a hynny fesul pwnc" a "bob yn damaid" i fod i olygu'r un peth ond roedd y geiriad gwahanol wedi arwain pobl i feddwl y gallai fod gwahaniaeth. Yn y Gymraeg, doedd 'bob yn damaid' ('bit by bit) ddim yn derm yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn gyfarwydd ag ef.

A yw'n osgoi annog pleidleiswyr i ystyried un ymateb yn fwy ffafriol na'r llall?

Pan ofynnwyd iddynt, canfuodd pleidleiswyr rai rhannau o'r cwestiwn a allai fod yn arweiniol:

- Roedd pobl yn teimlo nad oedd geiriad y cwestiwn 'Do you agree'/'Ydych chi'n cytuno' yn niwtral oherwydd mewn gwirionedd, yr hyn roedd yn ofyn oedd 'Ydych chi'n cytuno gyda fi…?' Roeddynt yn teimlo fod hyn yn gwneud 'Nac ydw, dydw i ddim yn cytuno' yn opsiwn llai rhwydd i'w ddewis.
- Roedd pobl hefyd o'r farn nad oedd cyflwyniad cymharol y ddau opsiwn yn gytbwys. Roedd disgrifiad yr ymateb 'cytuno' yn ymddangos yn fwy syml na disgrifiad yr ymateb 'dydw i ddim yn cytuno'. Roeddynt yn meddwl fod hyn yn eu hannog nhw i edrych ar yr ymateb 'dydw i ddim yn cytuno' yn llai ffafriol.

Casgliad

Dangosodd ein hasesiad fod yn rhaid i eiriau arbennig, ymadroddion a therminoleg gael eu hailddrafftio fel bod pleidleiswyr yn gallu deall y cwestiwn. Dylai'r cyflwyniad gynnwys llai o eiriau, ac mae'n rhaid i'r fformat fod yn fwy rhwydd i'w ddarllen ac yn fwy hygyrch.

Oherwydd bod yr holl faterion hyn yn cysylltu â'i gilydd, yn hytrach nag argymell newid geiriau neu ymadroddion unigol, neu ychwanegu testun newydd, rydym wedi gwneud cynnig ar ailddrafftio'r cyflwyniad a'r cwestiwn. Nid yw'n rhwydd drafftio cwestiwn ar gyfer y refferendwm, a bwriad ein proses o ailddrafftio yw dangos sut fyddai'n bosib cyfeirio at yr anawsterau rydym wedi'u canfod gyda'r drafft cyfredol. Gweler ein cynnig ar gyfer ailddrafftio ar y dudalen nesaf, ac fe fyddwn yn ei ddanfon yn ogystal â'r adroddiad llawn o'n darganfyddiadau at yr Ysgrifennydd Gwladol, sydd yn gyfrifol am benderfynu geiriad terfynol y cwestiwn.

Mae ein fersiwn wedi'i hailddrafftio cynnwys newidiadau megis:

- Is-benawdau i egluro beth sy'n dilyn ac i dorri'r testun ar y dudalen.
- Iaith pob dydd sy'n gyfarwydd i'r rhan fwyaf o bobl, yn hytrach nag iaith ffurfiol sy'n cael ei ddefnyddio mewn dogfennau swyddogol. Er enghraifft, rydym wedi defnyddio "Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd" yn hytrach na "Trefniadau cyfredol/presennol".
- Bold i bwysleisio'r gwahaniaethau pwysig.
- Rhestr fwy eang o esiamplau o'r 20 maes pwnc y mae'r Cynulliad yn gyfrifol drostynt, a defnyddio pwyntiau bwled i'w gwneud yn fwy rhwydd i'w darllen.
- Esiamplau o feysydd pwnc nad yw'r Cynulliad yn gyfrifol amdanynt.
- Dim ond ailadrodd gwybodaeth os yw hyn yn cynorthwyo i wneud y cwestiwn yn glir.
- Defnyddio geiriad cyson drwy gydol y cwestiwn.

Gallwch ddarllen ein adroddiad llawn yma

Gallwch ddarllen yr adroddiad o'r ymchwil yma

Gwybodaeth pellach

Cysylltwch efo:
Y Comisiwn Etholiadol
Tŷ Caradog
1–6 Plas Sant Andreas
Caerdydd CF10 3BE

Ffôn: 029 2034 6800
Ffacs: 029 2034 6805
gwybodaeth@comisiwnetholioadol.org.uk
www.comisiwnetholiadol.org.uk

Yr ydym yn gorff annibynnol a sefydlwyd gan Senedd y DU. Ein nod yw hyrwyddo gonestrwydd a meithrin hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. Rydym yn rheoleiddio cyllid pleidiau gwleidyddol ac etholiadau ac yn gosod safonau ar gyfer cynnal etholiadau effeithiol. Am fwy o wybodaeth ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Y Comisiwn Etholiadol

Ein cynnig ar ail-ddrafftio'r cwestiwn arfaethedig

Cynulliad Cenedlaethol Cymru: yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd

Mae gan y Cynulliad y pwerau i lunio deddfau mewn 20 maes pwnc, megis:

- amaethyddiaeth
- yr amgylchedd
- tai
- addysg
- iechyd
- llywodraeth leol

Mae'r Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar **rai** materion ym mhob maes pwnc ond nid ar faterion eraill. Er mwyn llunio deddfau ar unrhywun o'r materion eraill hyn, mae'n rhaid i'r Cynulliad ofyn am gytundeb Senedd y DU. Yna, mae Senedd y DU yn penderfynu bob tro a gaiff y Cynulliad lunio'r deddfau hyn neu beidio.

Ni all y Cynulliad lunio deddfau mewn meysydd pwnc fel amddiffyn, trethi neu fudd-daliadau lles, beth bynnag fo canlyniad y bleidlais hon.

Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'ydw'
Bydd y Cynulliad yn gallu llunio deddfau ar **bob** mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt, heb orfod cael cytundeb Senedd y DU.

Os bydd y rhan fwyaf o bleidleiswyr yn pleidleisio 'nac ydw'
Bydd yr hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd yn parhau.

Cwestiwn
A ydych yn dymuno i'r Cynulliad allu llunio deddfau ar **bob** mater yn yr 20 maes pwnc y mae ganddo bwerau ynddynt?

Ydw
Nac ydw

The National Assembly for Wales: what happens at the moment

The Assembly has powers to make laws on 20 subject areas, such as:

- agriculture
- the environment
- housing
- education
- health
- local government

In each subject area, the Assembly can make laws on **some** matters, but not others.
To make laws on any of these other matters, the Assembly must ask the UK Parliament for its agreement. The UK Parliament then decides each time whether or not the Assembly can make these laws.

The Assembly cannot make laws on subject areas such as defence, tax or welfare benefits, whatever the result of this vote.

If most voters vote 'yes'
The Assembly will be able to make laws on **all** matters in the 20 subject areas it has powers for, without needing the UK Parliament's agreement.

If most voters vote 'no'
What happens at the moment will continue.

Question
Do you want the Assembly now to be able to make laws on **all** matters in the 20 subject areas it has powers for?

Yes
No

'Cwestiwn arfaethedig' y bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymgynghori â ni amdano

Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru	**Referendum on law-making powers of the National Assembly for Wales**
Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol (y Cynulliad) y pwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru ar rai pynciau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae'r meysydd sydd wedi'u datganoli yn cynnwys iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a'r amgylchedd. Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli trwy gael cytundeb gan Senedd y Deyrnas Unedig, a hynny fesul pwnc.	At present, the National Assembly for Wales (the Assembly) has powers to make laws for Wales on some subjects within devolved areas. Devolved areas include health, education, social services, local government and environment. The Assembly can gain further powers to make laws in devolved areas with the agreement of the Parliament of the United Kingdom (Parliament) on a subject by subject basis.
Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio 'Ydw' yn y refferendwm hwn, bydd y Cynulliad yn ennill pwerau i ddeddfu ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli. Os bydd y rhan fwyaf yn pleidleisio 'Nac Ydw', bydd y trefniadau presennol - sef trosglwyddo'r hawl i ddeddfu bob yn damaid, gyda chytundeb Senedd y Deyrnas Unedig bob tro - yn parhau.	If most people vote Yes in this referendum, the Assembly will gain powers to pass laws on all subjects in the devolved areas. If most people vote No, then the present arrangements, which transfer that law-making power bit by bit, with the agreement of Parliament each time, will continue.
Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cynulliad gael pwerau yn awr i ddeddfu ar yr holl bynciau yn y meysydd sydd wedi'u datganoli heb fod angen cytundeb Senedd y Deyrnas Unedig yn gyntaf?	**Do you agree that the Assembly should now have powers to pass laws on all subjects in the devolved areas without needing the agreement of Parliament first?**
RHOWCH X MEWN UN BLWCH YN UNIG	**PUT AN X IN ONE BOX ONLY**

Ydw, rydw i'n cytuno - Yes, I agree	☐
Nac ydw, dydw i ddim yn cytuno - No, I do not agree	☐

'Cwestiwn arfaethedig' y bu Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymgynghori â ni amdano

Refferendwm ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru	**Referendum on law-making powers of the National Assembly for Wales**
Ar hyn o bryd, mae gan y Cynulliad Cenedlaethol (y Cynulliad) y pwerau i ddeddfu ar gyfer Cymru ar rai pynciau mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Mae'r meysydd sydd wedi'u datganoli yn cynnwys iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, llywodraeth leol a'r amgylchedd. Caiff y Cynulliad ennill mwy o bwerau i ddeddfu mewn meysydd sydd wedi'u datganoli trwy gael cytundeb gan Senedd y Deyrnas Unedig, a hynny fesul pwnc.	At present, the National Assembly for Wales (the Assembly) has powers to make laws for Wales on some subjects within devolved areas. Devolved areas include health, education, social services, local government and environment. The Assembly can gain further powers to make laws in devolved areas with the agreement of the Parliament of the United Kingdom (Parliament) on a subject by subject basis.
Os bydd y rhan fwyaf o bobl yn pleidleisio 'Ydw' yn y refferendwm hwn, bydd y Cynulliad yn ennill pwerau i ddeddfu ar bob pwnc yn y meysydd sydd wedi'u datganoli. Os bydd y rhan fwyaf yn pleidleisio 'Nac Ydw', bydd y trefniadau presennol - sef trosglwyddo'r hawl i ddeddfu bob yn damaid, gyda chytundeb Senedd y Deyrnas Unedig bob tro - yn parhau.	If most people vote Yes in this referendum, the Assembly will gain powers to pass laws on all subjects in the devolved areas. If most people vote No, then the present arrangements, which transfer that law-making power bit by bit, with the agreement of Parliament each time, will continue.
Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cynulliad gael pwerau yn awr i ddeddfu ar yr holl bynciau yn y meysydd sydd wedi'u datganoli heb fod angen cytundeb Senedd y Deyrnas Unedig yn gyntaf?	**Do you agree that the Assembly should now have powers to pass laws on all subjects in the devolved areas without needing the agreement of Parliament first?**
RHOWCH X MEWN UN BLWCH YN UNIG	**PUT AN X IN ONE BOX ONLY**

Ydw, rydw i'n cytuno - Yes, I agree	☐
Nac ydw, dydw i ddim yn cytuno - No, I do not agree	☐